



(Cyhoeddwyd | Issued : 20/10/2022)

**DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003**  
**TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number:

**PRM 0825 (Cyhoeddwyd | Issued: 20/10/2022)**

**Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details**

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:  
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**

**YR / THE ALBION ABERTEIFI  
BRIDGE WAREHOUSE  
TEIFI WHARF  
HEOL Y CASTEL / CASTLE STREET**

**Tref bost | Post town**

**ABERTEIFI / CARDIGAN**

**Côd Post | Post code**

**SA43 3AA**

**Rhif ffôn | Telephone number**

**01239 623633**

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates  
NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED  
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:  
Licensable activities authorised by the licence:**

**ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT  
FFILMIAU / FILMS**

**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO  
NEU PERFFORMIADAU DAWNS | ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC,  
RECORDED MUSIC OR PERFORMANCES OF DANCE**

**LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT**

**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**  
**The times the licence authorises the carrying out of licensable activities**

**ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT**

**FFILMIAU / FILMS**

**LLUN-SUL / MON-SUN: 10:00-00:00**

**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**  
**NEU PERFFORMIADAU DAWNS | ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC,**  
**RECORDED MUSIC OR PERFORMANCES OF DANCE**

**LLUN-SUL / MON-SUN: 10:00-23:00**

**LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT**

**LLUN-SUL / MON-SUN: 23:00-01:00**

**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**LLUN-SAD – MON-SAT: 08:00 – 00:00**

**SUL / SUN: 10:00-00:00**

**AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS:**

Hoffem hefyd yr opsiwn i agor y dan do trwyddedig ardal yn ddiweddarach ar Nos Galan a gwladol/banc arall gwyliau, cymunedol lleol neu ddigwyddiadau diwylliannol fel Arall Gŵyl Lleisiau, Afon a Bwyd a'u tebyg, ac ar gyfer dathliadau arbennig achlysurol i westeion preswyl (e.e. a cleient corfforaethol neu grŵp teulu yn llogi'r gwesty cyfan) gydag archebion olaf am 02:00 ac yfed hyd at 03:00.

We would also like the option to open the indoor licensed area later on New Year's eve and other national / bank holidays, local community or cultural events such as Other Voices, River and Food Festival and similar, and for occasional special celebrations for resident guests (e.g. a corporate client or family group hiring out the whole hotel) with last orders at 02:00 and drinking up until 03:00.

**Oriau agor y safle | The opening hours of the premises**

**LLUN-SAD / MON-SAT: 08:00-01:00**

**SUL / SUN: 10:00-01:00**

**AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS:**

Hoffem hefyd yr opsiwn i agor y dan do trwyddedig ardal yn ddiweddarach ar Nos Galan a gwladol/banc arall gwyliau, cymunedol lleol neu ddigwyddiadau diwylliannol fel Arall Gŵyl Lleisiau, Afon a Bwyd a'u tebyg, ac ar gyfer dathliadau arbennig achlysurol i westeion preswyl (e.e. a cleient corfforaethol neu grŵp teulu yn llogi'r gwesty cyfan) gydag archebion olaf am 02:00 ac yfed hyd at 03:00.

We would also like the option to open the indoor licensed area later on New Year's eve and other national / bank holidays, local community or cultural events such as Other Voices, River and Food Festival and similar, and for occasional special celebrations for resident guests (e.g. a corporate client or family group hiring out the whole hotel) with last orders at 02:00 and drinking up until 03:00.

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES**

**Enw, cyfeiriad (cofrestrdig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle | Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of premises licence**

**CARDIGAN QUAYS LTD  
THE ALBION ABERTEIFI  
BRIDGE WAREHOUSE  
TEIFI WHARF  
CASTLE STREET  
CARDIGAN  
SA43 3AA**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol) Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**

**03855973**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol**

**JAMES LYNCH**

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

**CER 0964**

**CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

## **ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL**

### **1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
  - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
  - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

### **2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
  - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
  - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -  
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

### **3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
  - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
  - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
    - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
    - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
  - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
  - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014**

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
  - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
  - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
    - (i) P yw'r pris a ganiateir
    - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
    - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
  - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
    - (i) Deiliad y drwydded safle,
    - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
    - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
  - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
  - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.  
  
(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014**

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

## **Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS**

### **1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol**

(1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.

(2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-

(a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or

(b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.

(3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

### **2 Mandatory condition: exhibition of films**

(1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.

(2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.

(3) Where-

(a) the film classification body is not specified in the licence, or

(b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.

(4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984

(c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

### **3 Mandatory condition: door supervision**

(1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.

(2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-

(a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or

(b) in respect of premises in relation to-

(i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or

(ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).

(3) For the purposes of this section-



- (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
- (b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014**

#### **With effect from 28<sup>th</sup> May 2014**

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
  - (a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
  - (b) "permitted price" is the price found by applying the formula –  
$$P = D + (D \times V)$$
where –
    - (i) P is the permitted price
    - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
    - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
  - (c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
    - (i) The holder of the premises licence,
    - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
    - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
  - (d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
  - (e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014**

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1<sup>st</sup> October 2014**

**Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.**

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

- (a) a holographic mark, or
- (b) an ultraviolet feature.

**4.** The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

- (i) beer or cider: ½ pint;
- (ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
- (iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

## Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

### a) Cyffredinol

Bydd teledu cylch cyfyng sy'n cysylltu o bell â'r rhyngwyd yn dangos yr ardaloedd cymunol trwyddedig. Bydd staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant trwydded bersonol lle bo angen. Bydd y trwyddedai yn cadw rheolaeth ar bob ardal gan wneud yn siŵr bod unrhyw adloniant, ffilm ac ati yn briodol i'r gynulleidfa ac na chaniateir gweithgarwch anghyfreithlon neu unrhyw weithgarwch sy'n mynd yn groes i'r drwydded. Mae pared rhwng ardal y lobi a'r bar a fydd dan glo pan na fydd y bar yn cael ei ddefnyddio.

### b) Atal trosedd ac anhrefn

Lle cyfyngedig sydd yn y bar a bydd y prisiau'n cael eu gosod i ddenu cwsmeriaid hŷn gan gynnwys oedolion sy'n breswylwyr yn y gwesty. Mae teledu cylch cyfyng wedi'i osod y tu mewn a'r tu allan. Caiff cwsmeriaid trafferthus eu hatal a/neu eu gwahardd. Nid oes goddefgarwch tuag at ddelio â chyffuriau neu unrhyw weithgarwch anghyfreithlon arall. Dim ond gwesteion preswyl gaiff ddod i'r eiddo ar ôl 23:00 awr. Os bernir bod angen, bydd diogelwch wrth y drws ar gyfer digwyddiadau penodol lle rhagwelir y gallai fod nifer mwy o ymwelwyr. Caiff niferoedd eu monitro a chedwir at y capasiti a nodir ar y cynlluniau llawr.

### c) Diogelwch y cyhoedd

Bydd gan gwsmeriaid nad ydynt yn aros yno fynediad i'r lobi/bar ar y llawr gwaelod a'r toiledau ar y llawr cyntaf yn unig. Cyfyngir ar fynediad i'r holl ardaloedd eraill â drysau rheoledig. Bydd staff yn monitro a chyfyngu ar y nifer o westeion sy'n dod i'r bar/lobi ar y llawr gwaelod i wneud yn siŵr nad yw'r uchafswm capasiti yn cael ei groesi. Mae drysau tân a larymau mwg wedi'u gosod drwy'r holl adeilad. Bydd offer ymladd tân priodol yn cael ei osod a'i gynnal ar gontract ar bob lefel. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar ei ddefnyddio. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf a iechyd a diogelwch yn barhaus a bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal gan y tîm rheoli. Bydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le.

### d) Atal niwsans cyhoeddus

Lle cyfyngedig sydd yn y bar a chwsmeriaid hŷn fydd yn mynd yno gan gynnwys gwesteion preswyl yn ogystal â phreswylwyr nad ydynt yn aros yno. Byddwn yn delio ag unrhyw un sy'n ymddwyn mewn modd swnllyd neu afreolus sy'n debygol o achosi aflonyddwch. Mae'r holl finiau ar gontract gwastraff busnesau ac yn cael eu gwacáu yn rheolaidd. Mae contract rheoli plâu yn ei le.

### e) Gwarchod plant rhag niwed

Gwesteion 16+ yn unig gaiff aros yn ystafelloedd y gwesty. Ni chaniateir i rai dan 16 oed fynd i'r bar ar ôl 21:00 ac eithrio ar gyfer hurio preifat (e.e. ar gyfer dathliad teuluol) y bar ar y llawr gwaelod a/neu y llofa ar y llawr cyntaf. Rhaid i bob un dan 18 oed fod dan oruchwyliaeth oedolyn yn yr ardaloedd trwyddedig. Bydd staff y bar yn derbyn hyfforddiant ar weini rhai dan 18 oed a gofynnir am gerdyn adnabod gan unrhyw un sy'n edrych yn 25 oed neu iau. Bydd unrhyw ffilm neu berfformiad nad yw'n addas ar gyfer rhai dan 18 (neu drothwyon i rai iau) yn cael ei hysbysebu yn unol â hynny a bydd y staff yn ymwybodol bod angen gwneud yn siŵr y cedwir at fonitro'r rhai sy'n bresennol.

## **Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule**

### **a) General**

CCTV with internet remote access will offer a view of the licensed communal areas. Relevant staff will receive personal licence training where required. The licensee will retain control of all areas ensuring that any entertainment, films, etc are appropriate to the audience and that no unlawful activity or any activity which contravenes the licence is permitted. There is a partition between the lobby area and the bar which will be locked when the bar is not in use.

### **b) The prevention of crime and disorder**

The bar has limited capacity and will be at a price point to attract a more mature clientele, including the adult only residents of the hotel. CCTV is installed indoors and outdoors. Troublemakers will be excluded and/or barred. Drug dealing or any other illegal activity will not be tolerated. Only resident guests will be permitted to enter the property after 23:00 hours. If deemed necessary, door security will be employed for specific events where increased footfall might be anticipated. Numbers will be monitored and the stated capacities on the floor plans adhered to.

### **c) Public safety**

Non-residents are only able to access the ground floor lobby / bar and the 1st floor toilets. All other areas are restricted by card-controlled access doors. Staff will monitor and limit numbers of guests entering the ground floor bar / lobby to ensure maximum capacity is not exceeded. Fire doors are fitted throughout the building and smoke alarms are installed. Appropriate fire fighting equipment will be installed and maintained on contract on all levels. Staff will receive training in its use. Staff will receive ongoing first aid and health and safety training and risk assessments will be maintained by the management team. Appropriate liability insurances will be in place.

### **d) The prevention of public nuisance**

The bar has limited capacity and will be frequented by a more mature clientele including, but not exclusively, resident guests. Anyone behaving in a noisy or boisterous manner likely to cause a disturbance will be dealt with. All bins are on a trade waste contract and are regularly emptied. A pest control contract is in place.

### **e) The protection of children from harm**

Only guests aged 16+ are permitted to stay in the hotel rooms. No under 16s will be permitted in the bar after 21:00 with the exception of private hire (e.g. for a family celebration) of the ground floor bar and/or first floor lounge. All under 18s in licensed areas must always be under the supervision of an adult. Bar staff are trained on service of under 18s and ID will be requested from anyone who looks 25 or younger. Any films or performances not suitable for under 18s (or younger thresholds) will be advertised as such and staff will be aware to ensure that monitoring of attendees is adhered to.

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu**

**f) Atodiad 3 – Amodau wedi'u hatodi yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**Atodiad 3 - Amodau cysylltiedig yn dilyn gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**Adran 17 Deddf Trwyddedu 2003**

Gwrandawriad: Pwyllgor Trwyddedu drwy Zoom ar 7<sup>fed</sup> Hydref 2022 am 9.30am

Presennol: Y Cynghorydd Euros Davies (Cadeirydd), y Cynghorydd Keith Evans, y Cynghorydd Eryl Evans, Mrs Victoria Evans, Ms Helena Corke (Swyddog Trwyddedu), Mr Eifion Roberts (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd).

**Amodau:**

- Nad yw'r ardal allanol yn cael ei defnyddio ar unrhyw noson o'r flwyddyn ar ôl hanner nos; rhaid gofyn i'r rhai sy'n yfed yn yr ardal allanol symud i mewn ar ôl hanner nos.
- Ar yr adegau pan fyddant yn cadw'r bar ar agor tan 3am, ac yn gweini alcohol tan 2am, rhaid iddynt hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o flaen llaw. Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r Heddlu os yw'n credu bod angen eu hysbysu ynghylch y digwyddiad.

Rhoddwyd yr amodau uchod ar y drwydded fel ffordd o atal niwsans cyhoeddu

**Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority**

**Section 17 Licensing Act 2003**

Hearing: Licensing Committee via Zoom Meeting on 7<sup>th</sup> October 2022 at 9.30am

Present: Cllr Euros Davies (Chairman), Cllr Keith Evans, Cllr Eryl Evans, Mrs Victoria Evans, Miss Helena Corke (Licensing Officer), Mr Eifion Roberts (Environmental Health Officer).

**Conditions:**

- That the outside area is not used after midnight on any other night of the year, people drinking in the outside area must be asked to move indoors at midnight.
- On the occasions that they will be keeping the bar open until 3am, serving alcohol until 2am, they must notify the Licensing Authority in advance. The Authority may then contact the Police if they think they need to notify them of the event.

The above conditions were to be placed on the licence as a means of preventing public nuisance.

PRM 0825 - Atodlen Weithredu The Albion  
 Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans





